**Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd**

**05 Mehefin 2019, 10:00 – 12:00**

**Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy**

**Yn bresennol**

**Aelodau'r Tasglu**
Y Dirprwy Weinidog ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (Cadeirydd)
Andrew Diplock, Entrepreneur, Angel Buddsoddi a Chynghorydd
Y Cyngh Andrew Morgan, Arweinydd Rhondda Cynon Taf
Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Dr Chris Jones, Cadeirydd, AaGIC
Dawn Bowden AC, Merthyr Tudful a Rhymni
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
Kellie Beirne – Cyfarwyddwr Rhaglen, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Jocelyn Davies, y Gweinidog Tai ac Adfywio Blaenorol
Fiona Jones, yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Aelodau Bwrdd y Rhaglen**
Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio (SRO)
David Rosser, Chwaraeon, ESNR
Huw Bryer, Llywodraeth Cymru

**Tîm Tasglu'r Cymoedd**
Sarah King, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd (Siaradwr)
Phil Lewis, Cangen Tasglu Blaenau'r Cymoedd (Siaradwr)
Lisa Rimmer – Uwch-reolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd
Kelly Clement – Rheolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd

**Ymddiheuriadau**
Brian Morgan, Athro Entrepreneuriaeth Prifysgol Met Caerdydd
Karen Phillips, Pennaeth, Coleg y Cymoedd
Ann Beynon, Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelod o Gyngor Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru.

**Siaradwyr**
Derek James, Rhondda Cynon Taf
Rachel Garside-Jones, Llywodraeth Cymru

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau.**

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (LW) a chafwyd cyflwyniadau.

**Eitem 2: Tai Gwag Cam 2**

1. Rhoddodd Lee Waters (LW) ddiweddariad ar gynnydd y cynllun tai gwag. Cynhaliwyd cyfarfodydd bellach ag arweinydd pob awdurdod lleol a chafodd model RhCT ei drafod. Mae'r cynllun wedi cael derbyniad da.
2. Y bwriad yw defnyddio cynllun RhCT fel y model y gellid ei addasu a'i ddatblygu maes o law i adlewyrchu nifer o ffactorau eraill. Er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth

lansio, y bwriad yw cyflwyno cam un o'r cynllun peilot yn seiliedig ar gynllun presennol RhCT gyda'r addasiadau awgrymedig canlynol yn unig i'r telerau ac amodau:

- Byddai angen i dai fod wedi bod yn wag ers 12 mis ac nid y 6 mis presennol;
- Gall perchenogion eiddo ond wneud cais am grant unwaith er mwyn osgoi sefyllfa lle y bydd landlordiaid / adeiladwyr yn elwa o hyn;
- Er y bydd yr uchafswm grant ar gyfer y cynllun hwn yn parhau i fod yn £20,000, bydd y cynllun Troi Tai'n Gartrefi presennol yn nodi o fewn ei delerau ac amodau os bydd angen cyllid ychwanegol, y gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r cynllun hwn i "ychwanegu" at y cais cychwynnol am grant.

3. Fel blaenoriaeth ar gyfer cam dau rydym yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith neu gynllun tebyg i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol sy'n gysylltiedig â sgiliau a chefnogi'r economi sylfaenol. Hoffem hefyd gynnwys mesurau ôl-osod a mesurau effeithlonrwydd ynni eraill lle y bo'n bosibl.
4. Dywedodd LW ei fod wedi awgrymu y dylai tai cymdeithasol ac awdurdodau lleol allu gwneud cais am y grant hwn, gan ofyn i hyn gael ei ystyried yng ngham dau.
5. Gan nad yw ffiniau'r tasglu yn cwmpasu ardaloedd cyfan tri awdurdod lleol, dywedodd LW fod y tasglu yn cydweithio â'r gwasanaethau Tai i ystyried cynnig y tu allan i'r ffiniau ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny.
6. Tynnodd Dawn Bowden (DB) sylw at y ffaith bod ardaloedd penodol â nifer o eiddo gwag a bod neb yn gwybod pwy sy'n berchen arnynt. Sut y gallwn sicrhau bod yr adeiladau hyn yn cael eu defnyddio unwaith eto? Eglurodd John Howells (JH) fod ei dîm yn cydweithio ag awdurdodau lleol ar hyn o bryd i ddatblygu dulliau i fynd i'r afael â thai gwag o'r fath sy'n anos ymdrin â nhw ar y cyd â'r fenter newydd hon. Dywedodd LH fod y cynllun penodol hwn yn gynllun ataliol ac sy'n ymyrryd yn gynnar er mwyn atal eiddo rhag datblygu i fod yn eiddo sy'n anos ymdrin â nhw.
7. Soniodd Andrew Morgan (AM) nad oedd hyn wedi bod yn broblem yn RhCT ac mai dim ond nifer fach o eiddo sydd heb eu cofrestru. Teimlodd AM ei fod yn annhebygol y byddai swm sylweddol yn cael ei wario eleni, ond bod cyfle i'w gynyddu erbyn diwedd y cyfnod hwn.
8. Roedd gan y tasglu ddiddordeb hefyd mewn ystyried y posibilrwydd o fesur y busnesau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith hwn yn ôl eu cod post er mwyn gweld p'un a ydynt yn lleol i'r cymunedau.
9. Tynnodd Rachel Garside-Jones (RGJ) sylw at bwysigrwydd cyflogadwyedd a sgiliau. Mae'r trafodaethau â'r tasglu eisoes wedi dechrau a bydd ei thîm yn rhan o'r gweithgor trawslywodraethol a gaiff ei drefnu gan y tasglu.
10. Roedd Fiona Jones (FJ) o'r farn fod hyn yn gyfle cyffrous. Pa rolau y gellid eu creu ar gyfer y rheini sy'n ddi-waith, er enghraifft, profiad gwaith? Eglurodd Derek James (DJ) fod RhCT wedi cydweithio'n agos â Cymunedau am Waith a llwybrau atgyfeirio a bod cyfleoedd i ddysgu ohonynt ac ehangu'r gwaith. Byddai angen ystyried Memorandwm Cyd-ddealtwriaeth posibl ag awdurdodau lleol.
11. Roedd David Rosser (DR) o'r farn y byddai'n bwysig sicrhau bod cydbwysedd y cynllun yn gywir ac osgoi gorgymhlethu drwy geisio cynnwys gormod. Mae angen dysgu gwersi o gam 1. Dywedodd Huw Bryer (HB) y gallai ei dîm gefnogi busnesau bach drwy roi cyngor busnes iddynt wrth ddatblygu'r fframwaith.
12. Dywedodd LH y caiff yr holl agweddau hyn eu hystyried ac y byddai gweithgor trawslywodraethol bellach yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn. Byddai tîm y tasglu hefyd yn cydweithio'n agos â DJ a'i dîm sy'n ymwneud â'r gwaith hwn.

**Eitem 3: Blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd a'i Ffyrdd o Weithio**

13. Rhoddodd LW ddiweddariad ar flaenoriaethau Tasglu newydd y Cymoedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd ag Arweinwyr awdurdodau lleol y Cymoedd ac roedd hyn wedi llywio ffocws y tasglu wrth symud ymlaen. Byddai'r blaenoriaethau newydd yn cynnwys:
    - Cwmnïau Gwreiddiedig ac Economi Sylfaenol - gan gynnwys twf busnes a dechrau busnes, entrepreneuriaeth
    - Trafnidiaeth
    - Tai – gan gynnwys model Eiddo Gwag RhCT
    - Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd – gan gynnwys Alumni
    - Parc Rhanbarthol y Cymoedd
    - Canolfannau Strategol – gan gynnwys yr A465 a materion digidol
14. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog atgoffa'r Tasglu eu bod wedi trafod perchnogaeth ac eglurder rolau mewn cyfarfod blaenorol. **CAM GWEITHREDU - Gwahoddodd LW yr aelodau i gynnig eu hunain i arwain y blaenoriaethau newydd.**
15. Awgrymodd Kellie Beirne (KB) y byddai'n bwysig egluro cylch gwaith pob thema mor glir â phosibl. Beth oedden yn ymdrin ag ef a beth oeddem yn ceisio ei gyflawni?
16. Roedd hi'n bwysig sicrhau bod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn parhau i fodoli ar ôl cyflwyno'r Pyrth Darganfod ac ar ôl i'r tasglu ddod i ben. Roedd hi'n galonogol gweld bod arweinwyr yr awdurdodau lleol wedi cytuno i gynnwys Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn eu strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer y fargen ddinesig. Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn parhau i fod yn is-grŵp a bydd JD yn aelod ohono ac yn cynrychioli'r Tasglu llawn.
17. Dywedodd AM y byddai'n bwysig cael cymorth ACau ar gyfer y gwaith ar yr A465. Roedd angen creu safleoedd diwydiannol ym Mlaenau'r Cymoedd a pharhau i ystyried yr hyn y gellid ei ddatblygu yn ogystal â'r gwaith hwn. Soniodd DB y gallai fod yn ddefnyddiol i'r swyddogion ddechrau ar y gwaith o fapio'r tir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno.
18. Cytunwyd ar y blaenoriaethau newydd.
19. Symudodd LW ymlaen i drafod y Cylch Gorchwyl a gwahodd sylwadau gan y grŵp. Cynhaliwyd trafodaeth ar arferion gwaith teg. Roedd angen gwella'r diffiniad o 'waith teg' a chreu strwythur i ddangos sut y byddai'n ymddangos. Roedd logo gwaith teg yn cael ei ddatblygu ond nid yw'n barod eto.
20. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl.

**Eitem 4: Ymgysylltu: Datganiad Cynnydd a Chynllun Ymgysylltu Tasglu'r Cymoedd**

21. Cyflwynodd Lucy Hoddinott (LH2) gynnig ar gyfer cam nesaf y gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned. Roedd y tasglu wedi parhau i ymgysylltu â'n partneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn cael effaith wirioneddol ar y broses o lunio polisïau. Roedd y tîm o'r farn ei bod hi'n bryd dychwelyd at y cymunedau a thrafod yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, er mwyn cyflwyno'r blaenoriaethau newydd a thrafod yr hyn y gallent ei olygu yn lleol.
22. Yn ystod y rownd gyntaf o ymgysylltu â'r gymuned, y brif broblem a oedd yn cael ei chodi'n gyson oedd Trafnidiaeth. Roedd ymrwymiad i gydweithio â Thrafnidiaeth Cymru (TfW) i ddatblygu cyfres o ddigwyddiadau wrth wraidd y rhaglen. Caiff y digwyddiad cyntaf ei gynnal ym Merthyr a gwnaeth LH2 wahodd DM a DB i fod yn rhan ohono.
23. Gwahoddodd LH2 fewnbwn gan y tasglu ar ffurf y digwyddiadau yn fwy cyffredinol. Ble y dylent gael eu cynnal a phwy ddylai fod yn bresennol? Y bwriad ar y pryd oedd trefnu 'marchnad' ar ddechrau bob sesiwn gyda thrafodaeth ag aelodau o'r tasglu, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddilyn. Roedd yr adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu cynnar yn nodi bod digwyddiadau gyda'r nos yn gweithio'n dda i gymunedau lleol.

24. Os bydd cynllun peilot y Gymhorthfa Fusnes Leol ym Margoed gyda Hefin David yn llwyddiannus yn ddiweddarach yn ystod y mis hwn, byddai LW yn ysgrifennu at aelodau meinciau cefn eraill y Cymoedd yn y Cynulliad i'w gwahodd i gynnal digwyddiad tebyg yn eu hardal leol.
25. Roedd datganiad ysgrifenedig wedi'i drefnu ar gyfer 18 Gorffennaf. Roedd hyn yn gyfle i nodi blaenoriaethau newydd ar gyfer y tasglu a gwneud cyhoeddiadau gan gynnwys:
    - Tai Gwag – model RhCT ac arfer gorau
26. Tynnodd AM sylw at fanteision creu fideo animeiddiad byr i ddangos y cyflawniadau a dywedodd y byddai RhCT yn hapus i wneud hyn am ddim.
27. Soniodd KB am greu adnodd rhyngweithiol a diddorol i bobl ifanc. Ap neu fath o gêm efallai.
28. **CAM GWEITHREDU - Cytunodd LH2 i ddosbarthu pecyn cyfryngau cymdeithasol Tasglu'r Cymoedd**
29. Cytunwyd mai'r cynllun oedd y ffordd orau ymlaen a bod angen i waith ymgysylltu fod yn rhan allweddol o'r is-grwpiau.

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall**

30. Rhoddodd LW ddiweddariad ar y broses o gyflwyno adroddiadau ar y camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni. Mae swyddogion yn defnyddio CPMS i gyflwyno adroddiadau er mwyn olrhain cynnydd. Daeth y cyfnod adrodd presennol i ben ddydd Gwener felly caiff adroddiad manwl ei gyhoeddi tua'r un adeg â'r datganiad cynnydd. Byddai'r adroddiad yn rhoi cipolwg ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r camau yn y Cynllun Cyflawni.
31. Roedd FJ yn awyddus i gynnwys rhywfaint o straeon cwsmeriaid fel rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu a'r datganiad cynnydd. **CAM GWEITHREDU - Cytunodd FJ i weld pwy fyddai'n fodlon cyflwyno tystiolaeth a'i rhannu â LH2.**
32. Lansiwyd digwyddiad Pitch It Cymoedd ar ddechrau mis Mai ar gyfer busnesau yn y Cymoedd yn unig. Byddai'n galluogi busnesau i gael gafael ar wasanaeth Angylion Buddsoddi i dyfu eu busnes. Cafwyd 43 o geisiadau, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn dda iawn ac roedd tua eu hanner gan sylfaenwyr benywaidd. Dewiswyd 15 gwmnïau o'r 43 a fydd yn rhoi cyflwyniad ar 20 Mehefin. Caiff 5 busnes eu dewis i dderbyn pecyn cymorth dwys cadarn drwy gydol yr haf a'r hydref. Bydd y 5 busnes llwyddiannus yn rhoi cyflwyniad er mwyn ceisio ennill buddsoddiad mewn digwyddiad ym mis Tachwedd.
33. Tynnodd AM sylw at y ffaith bod 4 ward yn ardal Tasglu'r Cymoedd ymhlith yr 20 o ardaloedd mwyaf difreintiedig. A oes angen i ni ystyried hyn? Rhoddodd Maureen Howell (MH) ddiweddariad gan nodi bod y Prif Weinidog wedi gofyn am waith ar dlodi plant. Cytunodd MH i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tasglu am yr hyn sy'n digwydd.
34. Soniodd Huw Bryer (HB) am rwydwaith cymar i gymar y Cymoedd lle y gall busnesau yn y Cymoedd ddysgu oddi wrth ei gilydd a thrafod eu heriau. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 21 Mehefin.
35. **CAM GWEITHREDU - Cytunodd LW i roi diweddariad ar waith yr Alumni yn ystod y cyfarfod nesaf.**
36. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 16 Hydref, 10:00-12:00.  Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.